


Cyfarfod Eithriadol Bwrdd AIA IGDC – Cofnodion CYHOEDDUS

Cofnodion Cyfarfod Eithriadol Bwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig (AIA) Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) a gynhaliwyd ddydd Mawrth 9 Gorffennaf 2024 fel cyfarfod rhithwir a ddarlliedwyd yn fyw trwy Zoom.

 15:00 – 15:30

 9 Gorffennaf 2024

 ZOOM

Aelodau'n Bresennol	Blaenlythrennau	Teitl	Sefydliad
Simon Jones	SJ	Cadeirydd y Bwrdd	IGDC
Ifan Evans	IE	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth	IGDC
Rowan Gardner	RGA	Aelod Annibynnol	IGDC
Ruth Glazzard	RG	Is-gadeirydd y Bwrdd	IGDC
Marian Wyn Jones	MWJ	Aelod Annibynnol	IGDC
Marilyn Bryan Jones	MBJ	Aelod Annibynnol	IGDC
Sam Lloyd	SL	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	IGDC
Alistair Klaas Neill	AKM	Aelod Annibynnol	IGDC
Claire Osmundsen-Little	COL	Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol / Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	IGDC
David Selway	DS	Aelod Annibynnol	IGDC
Helen Thomas	HT	Prif Swyddog Gweithredol	IGDC

Yn bresennol	Blaenlythrennau	Teitl	Sefydliad
Chris Darling	CD	Ysgrifennydd y Bwrdd	IGDC
Andrew Fletcher	AF	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd – Undeb Llafur	IGDC
Sam Hall	SH	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl	IGDC

Sarah-Jane Taylor	SJT	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol	IGDC
-------------------	-----	---	------

Yn arsylwi	Teitl	Sefydliad
Hannah Brimson	Swyddog Cyfathrebu	IGDC
Jenilee Cardy	Uwch Swyddog Cyfathrebu	IGDC
Nathan John	Rheolwr Gweithrediadau	IGDC
Carys Richards	Rheolwr Cymorth Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)	IGDC
Laura Tolley	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol	IGDC

Ymddiheuriadau	Teitl	Sefydliad
Rhidian Hurle	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	IGDC

Acronymau

IGDC	Iechyd a Gofal Digidol Cymru	AIA	Awdurdod Iechyd Arbennig
CEO	Prif Swyddog Gweithredol	IM	Aelod Annibynnol
LLC	Llywodraeth Cymru		

Rhif yr Eitem	Manylion yr Eitem	Canlyniad	Cam Gweithredu
RHAN 1 – MATERION RHAGARWEINIOL			
1.1	<p>Croeso ac Ymddiheuriadau</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd bawb i Gyfarfod Eithriadol Bwrdd AIA Iechyd a Gofal Digidol Cymru heddiw a oedd yn cael ei gynnal heddiw i gymeradwyo Cyfrifon Blynyddol Terfynol 2023/24 ac Adroddiad Blynyddol 2023/24 IGDC.</p> <p>Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw dros Zoom. Yn ogystal, byddai'r recordiad ar gael ar wefan IGDC ar gyfer unrhyw un nad oedd yn gallu cael mynediad i'r cyfarfod yn fyw.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.2	<p>Ymddiheuriadau am Absenoldeb</p> <p>Cafwyd ymddiheuriadau gan:</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi

	<p>Rhidian Hurle, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, gan fod dydd Mawrth yn ddiwrnod clinigol dan contract.</p> <p>Nododd y Cadeirydd fod Rowan Gardner, Aelod Annibynnol, yn ymuno drwy ddyfais symudol ac felly dim ond ar ffurf sain ac nid fideo yr oedd hi ar gael.</p>		
1.3	<p>Datganiadau o Fuddiannau</p> <p>Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau i'w nodi.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
BUSNES Y CYFARFOD			
RHAN 2 - PRIF AGENDA			
2.1	<p>Adborth gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio</p> <p>Nododd Marian Wyn Jones, Aelod Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio fod aelodau'r Pwyllgor Archwilio, yn gynharach yr un diwrnod, wedi cytuno i gadarnhau Cyfrifon Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol 2023/24 i'w cyflwyno i'r Bwrdd heddiw i'w cymeradwyo cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.</p> <p>Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio fod y Pwyllgor Archwilio wedi derbyn adroddiad ISA260 Archwilio Cymru a nododd waith sylweddol y gyfarwyddiaeth Gyllid er mwyn sicrhau sefyllfa gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn ynghyd â'r gwaith cydweithredol a wnaed rhwng IGDC ac Archwilio Cymru.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>NODI'R Adborth gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.2	<p>Cyfrifon Blynyddol Terfynol Iechyd a Gofal Digidol Cymru 2023/2024</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datganiadau Ariannol (wedi'u cynnwys yn eitem 2.3 ar yr agenda) • Llythyr Cynrychiolaeth • Adroddiad ISA260 Archwilio Cymru <p>Nododd Claire Osmundsen-Little, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol IGDC, fod y manylion yn atodiadau'r adroddiad blynyddol a chrynhodd fod IGDC wedi adrodd ei fod wedi cyflawni ei ddyletswyddau Ariannol Statudol gyda'r cyfrifon yn cyflwyno tanwariant refeniw o £0.307m a thanwariant cyfalaf o £0.019m.</p> <p>Bu i Archwilio Cymru gyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni hyd nes y darperir Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i lofnodi, sef eitem 2.2i, y byddai angen ei lofnodi gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, pe bai Cyfrifon Blynyddol 2023/24 yn cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd heddiw a'u cyflwyno ynghyd â'r cyfrifon archwiliedig terfynol ar gyfer 2023-24 i Lywodraeth Cymru erbyn 15 Gorffennaf 2024.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>GYMERADWYO Cyfrifon Blynyddol Terfynol IGDC 2023/2024;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datganiadau Ariannol (wedi'u cynnwys yn eitem 2.3 ar yr 	Cymeradwyd	Dim i'w nodi

	<p>agenda);</p> <ul style="list-style-type: none"> Llythyr Cynrychiolaeth; Adroddiad ISA260 Archwilio Cymru. 		
2.3	<p>Adroddiad Blynyddol IGDC</p> <p>Cyflwynodd Chris Darling, Ysgrifennydd y Bwrdd, grynodedb o'r trosolwg o'r Adroddiad Blynyddol, gan nodi'r newid i rai mân gywiriadau a wnaed ers cyhoeddi'r papurau.</p> <p>Amlygwyd bod Adroddiad Blynyddol 2023/24:</p> <ul style="list-style-type: none"> Yn ofynnol i fod yn deg, yn gytbwys, yn ddealladwy ond eto'n gynnwys gorffenedig cynhwysfawr; Yn cadw at y Llawlyfr Cyfrifon, yn bodloni'r gofynion ac yn cynnwys elfennau allweddol o'r canllawiau; Yn mynd i'r afael â'r holl bwyntiau a godwyd mewn trafodaethau ag Archwilio Mewnol, Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru drwy gydol y broses gynhyrchu; Yn cael ei gynhyrchu fel un ddogfen unedig yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> Yr Adroddiad Perfformiad; Yr Adroddiad Atebolrwydd; Y Datganiadau Ariannol; Os caiff ei gymeradwyo heddiw byddai'n cael ei lofnodi gan y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol a'i gyflwyno'n ffurfiol i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru; Fel yn y flwyddyn flaenorol, roedd yr adroddiad wedi'i greu mewn HTML i wella hygyrchedd a bod yn adnodd digidol, gyda data ar gael i ddadansoddi a gweithredu gwelliannau pellach o ran ymgysylltu. <p>Diolchwyd gan Helen Thomas, Prif Swyddog Gweithredol IGDC i'r sefydliad cyfan a gyfrannodd at yr Adroddiad Blynyddol. Roedd y Bwrdd yn cydnabod bod yr adroddiad yn gofnod o holl waith blynyddol IGDC ac y dylid ei hyrwyddo'n eang.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>GYMERADWYO Adroddiad Blynyddol IGDC.</p>	Cymeradwyd	Dim i'w nodi
RHAN 3 - MATERION I GLOI			
3.1	<p>Unrhyw Faterion Brys Eraill</p> <p>Ni chodwyd unrhyw fater brys arall.</p>	Trafodwyd	Dim i'w nodi
3.2	<p>Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf</p> <ul style="list-style-type: none"> Dydd Iau 25 Gorffennaf 2024; Fe'i dilynir gan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol <p>Daethpwyd y cyfarfod i ben am 15:15</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi